O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2008 Rhif 1063 (Cy. 112)

IECHYD PLANHIGION, CYMRU

Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) (Diwygio) 2008

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2006 (O.S. 2006/2929 (Cy. 264)) fel ag i ddiwygio'r goddefiannau ar gyfer y Crach Cyffredin (rhywogaeth *Streptomyces*) fel a ganlyn—

(a) cynyddu'r goddefiant unigol ar datws hadyd cyn-sylfaenol o ddosbarth cyn-sylfaenol 1, cyn-sylfaenol 2, cyn-sylfaenol 3 neu cyn-sylfaenol 4 ac ar datws hadyd sylfaenol i 5%; a

(b) cynyddu cyfran yr arwynebedd a eill gael ei effeithio o chwarter i draean.

O F F E R Y N N A U
S T A T U D O L
C Y M R U

2008 Rhif 1063 (Cy.112)

IECHYD PLANHIGION, CYMRU

Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) (Diwygio) 2008

Gwnaed *9 Ebrill 2008*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *10 Ebrill 2008*

Yn dod i rym *6 Mai 2008*

Mae Gweinidogion Cymru, y breiniwyd ynddynt bellach(**1**) y pwerau a roddwyd gan adran 16(1) o Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau hynny.

Yn unol â'r adran honno mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â chynrychiolwyr y buddiannau hynny sy'n ymddangos i'r Gweinidogion fod a wnelont â'r Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) (Diwygio) 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 6 Mai 2008.

(**1**) Yn rhinwedd O.S. 1978/272, O.S. 1999/672 a Deddf Llywodraeth Cymru 2006; mae'r swyddogaethau bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru.

(**2**) 1964 p.14; diwygiwyd adran 16 gan adran 4(1) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p.68) a pharagraff 5(1), (2) a (3) o Atodlen 4 iddi, O.S. 1977/1112, ac adran 2 o Ddeddf Amaeth 1986 (p.49); *gweler* adran 38(1) am ddiffiniad o "*the Minister*".

Diwygiadau i Reoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2006

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2006(**1**) fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 3, yng Ngrŵp IV o Ran II ac yng Ngrŵp IV o Ran III—

(a) yn y golofn gyntaf, o dan "Y Crach Cyffredin (rhywogaeth *Streptomyces*)" yn lle "chwarter" rhodder "thraean"; a

(b) yn yr ail golofn, yn lle'r ffigur gyferbyn â "Y Crach Cyffredin (rhywogaeth *Streptomyces*)" rhodder "5.0%".

Elin Jones

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

9 Ebrill 2008

(**1**) O.S. 2006/2929 (Cy. 264).